**Dr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**
**Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At sylw darparwyr gwasanaethau cysylltiad agos,

**YNGHYLCH: Cadw amgylchedd diogel rhag Covid yn y sector gwasanaethu cysylltiad agos i ddiogelu staff a chleientiaid**

Gallwn i gyd ymfalchïo yn y camau breision yr ydym wedi'u gwneud dros yr ychydig fisoedd diwethaf wrth leihau nifer yr heintiau yn ein cymunedau ac wrth frechu'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae'r llwyddiant hwn wedi caniatáu imi gytuno ar ailgyflwyno'r economi yn raddol ynghyd â gwasanaethau sydd mor bwysig i lawer o bobl.

Gwn fod gwasanaethau cysylltiad agos wedi croesawu'r canllawiau a ddatblygwyd i sicrhau eu bod yn ddiogel rhag Covid a'u bod wedi ymgysylltu â'u swyddogion gorfodi lleol. Gwn hefyd o adroddiadau gan yr awdurdodau lleol fod y swyddogion hyn wedi bod yn eich cefnogi yn yr ychydig wythnosau diwethaf wrth wneud y peth iawn i chi, eich staff a'ch cleientiaid. Bron yn ddieithriad mae cydymffurfiad â'r canllawiau wedi bod yn ardderchog, er y bu pryder ynghylch ychydig o glystyrau o achosion yn gysylltiedig â thrinwyr gwallt a siopau barbwr ac adroddiadau bod rhai busnesau wedi blino ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol.

Er gwaethaf y cynnydd sydd wedi'i wneud, nid yw'r canllawiau ar ddiogelu rhag Covid yn eich sector wedi newid a rhaid inni barhau i sicrhau bod unrhyw gyfle i drosglwyddo'r feirws yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl. Hoffwn eich atgoffa fod PPE (mae hyn yn cynnwys masg wyneb Math II a feisor wyneb) yn amddiffyniad hanfodol ac yn ofyniad cyfreithiol i bob ymarferydd sy'n darparu gwasanaeth cysylltiad agos. I'r ymarferwyr hyn nid oes unrhyw eithriad meddygol rhag y gofyniad am PPE. Afraid dweud y bydd y gwasanaethau yr ydych yn eu darparu yn torri'r rheol dau fetr ar brydiau. I helpu i liniaru'r risgiau rhaid i'ch cleientiaid hefyd wisgo gorchudd wyneb bob amser yn ystod eu hymweliad.

Mae'r mwyafrif o fusnesau wedi gweithio'n agos â swyddogion gorfodi'r awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaeth pwysig iawn mewn ffordd mor ddiogel â phosibl. Gwn mor ddiolchgar ydych am eu cefnogaeth a'ch bod yn deall bod ar swyddogion gorfodi'r awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i arolygu a chynghori busnesau ar ofynion y rheoliadau coronafeirws. Mae'n bwysig cydnabod hyn ac i'w swyddogion gael eu trin gyda pharch, a hynny gennych chi'ch hunain a'ch cleientiaid. I ddarparu cymorth rydym wedi cynhyrchu cardiau gweithredu Gwasanaethau Cyswllt Agos Nad Ydynt yn Hanfodol / Arferion Therapi Cyswllt Agos sy'n tanlinellu'r ymateb a ddisgwylir gan bob partner wrth gadw pawb yn ddiogel, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Rwyf yn hyderus y byddwch yn parhau i gynnig gwasanaeth diogel a werthfawrogir gan bawb, trwy barhau i gydymffurfio â'r rheoliadau, a chyda chymorth gan eich cleientiaid.

Yr eiddoch yn gywir

**DR FRANK ATHERTON**